

Cyn y Rhyfel

Mae cyfrifiad 1911 yn dangos Rhuddlan fel tref a phlwyf o gwmpas 4000 acer oedd o dan weinyddiaeth y Cyngor Plwyf a Chyngor Ardal Wledig Llanelwy, ac yn cynnwys ffermydd o'i chwmpas fel Criccin a Cwybr Fawr, ystadau fel Bodrhyddan a Pengwern a Morfa Rhuddlan.

Mae'r boblogaeth yn anodd i'w ddiffinio. Roedd yna 1607 plwyfolyn sifil, 1344 plwyfolyn eglwysig a 1129 yn y fwrdeistref seneddol, ond roedd hyn yn cynnwys 186 o enethod a 197 o fechgyn. Cyfartaledd plant mewn teulu oedd pedwar. Roedd tua hanner y bobol yn siarad Saesneg yn unig, hanner yn ddwyieithog a 49 yn siarad Cymraeg yn unig. Roedd y galwedigaethau yn amrywiol, yn cynnwys labrwyd/gweision fferm (134), gweision/morwynion tŷ (82), gweithwyr ffoundri (64), ffermwyr (47), garddwyr (23), siopwyr (22), gwniadwragedd (22), gweithwyr brics (17) ac athrawon (12). Roedd wyth gweithiwr rheilffordd, deintydd, heddwad, adeiladwr coets, tri phostmon, a thri gof yn byw yn y dref. Roedd 41 yn byw ar incwm breifat, a dim ond 21 wedi ymddeol. Er bod y rhan fwyaf o'r merched yn gweithio fel gweinyddesau teuluol cyflogwyd llawer ohonynt mewn busnesau teuluol gan gynorthwyo'u gwŷr neu redeg eu busnes eu hunain er enghraifft gwneud teisennau neu hetiau. Roedd postfeistres ond roedd merched proffesiynol yn fach o ran rhif ac yn ymwneud gyda nyrsio neu addysgu.



Stryd Fawr, Rhuddlan, cyn y Rhyfel

Roedd gofynion crefyddol y gymuned yn cael eu bodloni gan Eglwys y Santes Fair, Capel y Bedyddwyr (nawr yn dŷ preifat yn Lôn y Tywysog), Capel Ebeneser (Methodistiaid Calfinaidd), Capel Gosen (Annibynwyr - nawr yr Eglwys Efengylaidd yn y Stryd Fawr), Capel y Wesleaid yn Stryd y Gwindy ac yn olaf yr Eglwys Gatholig gyda'r aelodau yn cyfarfod mewn "cwt tun" (adeilad haearn rhychiog a oedd yn sefyll ar faes parcio'r ganolfan gymunedol bresennol).

Fel adeiladau mwyaf yn y dref, roedd yr eglwysi a'u neuaddau yn ganolfannau cymdeithasol hefyd, yn aml yn cynnal cymanfaoedd canu ac eisteddfodau, darlithwyr gwadd, ac areithiau gwleidyddol gan bob plaid yn ystod etholiadau (oherwydd heb deledu roedd rhaid i'r ymgeiswyr wynebu eu hetholwyr), te partis a chystadlaethau chwaraeon.

Roedd John a Harriet Oldfield yn darparu diod yn y King's Head i drigolion sychedig a Thomas a Clara Davies yn y New Inn. Roedd y Mariner's Arms ger Stryd yr Eglwys (yr unig dŷ rhydd yn y Stryd Fawr)

yn eiddo i Thomas a Mary Roach ac felly'r Marsh yn Ffordd yr Orsaf (a chwalwyd yng Ngorffennaf 2014) yn eiddo i Richard a Mary Jones. Perchenogion y Castle Inn, sy'n parhau yn Stryd y Castell, oedd Richard a Jane Williams. Yn ogystal â hyn, medrai gwleidyddwyr sychedig yfed yng Nghlwb y Ceidwadwyr.



Y Castle Inn (Y Black Bach) yn Stryd y Castell

Roedd bywyd chwaraeon yn cynyddu. Roedd yna glwb saethu agored ar dir Castell Rhuddlan ac yn yr Odyn, sef adeilad cymdeithasol yn Ffordd y Tywysog, roedd yna glwb dan do gyda thiworiaeth gan Mr Gregory. Trechodd y tîm pêl droed Rhuthun 2-0 yn y rownd gyn derfynol Cwpan Cynghair Prestatyn a'r Cylch yn Chwefror 1914, a bu dyddiau mwyn yr Haf yn cael eu treulio yn y clwb criced (ger Fferm Bryn Ffynnon ar Ffordd Dyserth, nawr yn rhan o'r cwrs golff) neu yn y clwb tennis yng nghaeau'r Llyngesydd. Yma etholwyd Miss Roberts o Lôn yr Abaty yn ysgrifenyddes anrhydeddus ym Mawrth 1911. Roedd pysgota yn boblogaidd er bod diffyg pysgod yn y Clwyd yn peri pryder - yn 1890 daliwyd 4300 eog a brithyll gyda rhwyd a 200 gyda genwair. Erbyn 1913 roedd y rhifau hyn wedi gostwng, un i 75 a'r llall i 106. Cwynodd y pysgotwyr rhwyd gan ddweud mai'r rheswm am hyn oedd yr holl dar ar y ffyrdd, carthion a glanhau'r Foryd. Aeth yr achos o flaen Bwrdd Amaethyddiaeth, ac o'r diwedd, yn Chwefror 1914, gwaharddwyd pysgota rhwydi rhwng pontydd rheilffordd Rhuddlan a'r Foryd.

Nid oedd y gwasanaeth post i Ruddlan yn gyson bob amser. Y rheswm am hyn oedd bod y post yn gadael canolfan bost Rhuthun am 8 ym ac yn cael ei gario gyda throl a cheffyl dros lwybr mynyddig peryglus (yn enwedig yn y gaeaf) i Fflint ac yna gyda thrên i Ruddlan, ac yn ôl yr un ffordd y bore wedyn. Yn 1913 dechreuodd fan modur ddod a'r post o Ruthun i Ddînbych, Llanelwy, Rhuddlan a Rhyl. Yn yr un flwyddyn fe godwyd pyst telegraff gan Swyddfa Bost Cyffredinol (GPO) ar hyd Stryd yr Eglwys, Election Row (Lôn y Tywysog) a Hylas Lane, i greu gwell cysylltiad i alwadau pell. Cafwyd naw teleffon newydd eu clustnodi i Ruddlan y flwyddyn yno.



Golygfa arall o'r Stryd Fawr cyn y Rhyfel

Roedd Cyngor Plwyf Rhuddlan yn cyfarfod pob mis yn 1914 gyda Mr Blinson y cigydd fel cadeirydd, Mr Joshua Davies fel trysorydd a Mr H Barnett yr adeiladwr fel clerac ac is-arolygwr a oedd yn cael ei gyfflogi £80 y flwyddyn. Pwnc parhaus oedd cyflwr anfodddhaol y ffyrdd, gyda cherrig rhydd, ceudyllau ac olion troliau. Gwnaethpwyd ceisiadau i dario Election Row, Stryd y Senedd, Stryd y Castell, a Stryd yr Eglwys. Roedd yna wrthdaro, oherwydd bod tario Pont Rhuddlan yn addas i draffig cerbydau ond yn achosi i geffylau lithro. Roedd arwyneb caregog a garw yn well i'r ceffylau. Cyn y rhyfel roedd marchogaeth ceffylau a cherbydau tynnu yn gyffredin. O dan y Ddeddf Goleuo a Gwyllo, y Cyngor oedd yn gyfrifol am gynnal lampau'r stryd a phenodi goleuwr, oherwydd doedd dim golau trydan ar y pryd. Roedd taflu sbwriel wrth y rheilffordd, yn yr afon ac yn Lôn y Ficerdy hefyd yn bwnc llosg, oherwydd doedd dim gwasanaeth casglu sbwriel fel yn Nyserth - er fel y dynodwyd, roedd Rhuddlan yn lwcus cael carthffosiaeth. Problem bigog arall oedd bod ystâd Bodrhyddan wedi ffensio rhan o Forfa Rhuddlan, anghyfreithlon yn eu tyb nhw. Fe geision nhw farn Ymddiriedolwyr y Morfa, ac roeddynt yn teimlo mor rhwystredig nad oeddynt yn cael dogfennau anhysbys gan y Ficer fel i'r digwyddiad gael ei adrodd yn y papur newydd lleol!



Trafnidiaeth a dynnwyd gan geffyl ar bont Rhuddlan

Roedd gan drigolion Rhuddlan ddiddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth, gyda Chlwb y Ceidwadwyr yn ogystal â Chymdeithas Merched oedd o blaid toll ar nwyddau a fewnforiwyd i ddiogelu gwaith Prydeinig. Roeddynt hefyd yn cefnogi Blaenoriaeth i Fasnach oddi mewn yr Ymerodraeth yn hytrach na Masnach Rydd fel hyrwyddwyd gan y llywodraeth Ryddfrydol. Roedd gan y Blaid Ryddfrydol gefnogaeth gref yng Ngogledd Cymru, yn enwedig ymysg yr Anghydfurfwyr. Daeth sefydlu pensiwn yr henoed yn 1910 i bobl dros 70 yn dilyn Cyllideb y Bobl yn 1909 gan y Canghellor Lloyd George, ag addewid o rywffaint o fudd-dal diweithdra a salwch gan Y Ddeddf Yswiriant Gwladol 1911, ac addewid o ddarpariaeth ar gyfer gweddwon a phlant amddifad yn codi teimladau cryf ar y ddwy ochor o wleidyddiaeth. Ta waeth, y brif ddatl yn 1913 yn ystod yr is-etholiad lleol oedd dyfodol yr Eglwys Anglicanaidd. Roedd Mesur Seneddol yr Eglwys wedi ei gynnig gan y llywodraeth Ryddfrydol i gymryd rheolaeth o'r Eglwys yng Nghymru yn ôl oddi wrth Gaergaint a gwneud yr Eglwys yn aelod annibynnol yn bwnc dadleuol iawn. Datgysylltwyd statws cyfreithiol arbennig yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru a gyda hynny'r fraint o gael derbyn degwm gan bawb, hyd yn oed y rhai nad oeddynt yn aelodau o'r Eglwys. Fe roddwyd rhai o eiddo ac asedau'r Eglwys i'r Brifysgol a'r awdurdodau lleol. Siaradodd Mr J Hamlet Roberts, yr ymgeisydd Unoliaethwyr/Toriaidd, gyda chynulleidfa lawn yn ystafell ddarlith Capel Ebeneser M.C., gyda chefnogaeth gan Esgob Dewi Sant. Enillodd Mr Thomas Henry Parry, yr ymgeisydd Rhyddfrydol o 211 pleidlais. Fel y digwyddodd, oherwydd y rhyfel, ni chafodd Deddf yr Eglwys yng Nghymru ei sefydlu tan Fawrth 31ain, 1920, pan sefydlwyd yr Eglwys fel talaith annibynnol o'r Cymuned Anglicanaidd a'i rhannu yn chwe esgobaeth o dan Archesgob Cymru.

Roedd bywyd deallusol oedolyn yn cynyddu yn y capeli. Er enghraifft, ym mis Chwefror 1913 gwrandawodd Cymdeithas Llenyddiaeth a Thrafod y Wesleaid ar Miss Griffiths y Siop Isa yn darlithio am "Romance of the book of the father", Mr Joe Roberts o Stryd y Senedd ar "The value of prayer to life" a Mr Ernest Roberts y Siop Ganol am "The Service of Sunday Schools to the Nation". Balch o'i hanes hir, roedd y dref wrth ei bodd pan gafodd y Groes Criccin hynafol ei hadfer gan Mr J O Hughes, asiant a saer i ystâd Bodrhyddan a hefyd Pennaeth y Frigâd dân (gwirfoddolwr). Hefyd roedd mawr ddiddordeb ar Orffennaf 1914 o glywed fod Statud Rhuddlan Iorwerth 1af gwreiddiol, gyda'r dyddiad 8fed o Fedi, 1284, wedi ei ddarganfod a'i adfer ymysg papurau ystâd Bodrhyddan, gyda llyfr (croen) "mise" o'r 14eg ganrif yn rhestru bwrdeiswyr ac yn cofnodi taliadau i'r brenin.

Ta waeth, nid oedd pob trigolyn o Ruddlan yn fodlon ei byd, a bu rhai yn chwilio am fywyd gwell yn yr Ymerodraeth. Er enghraifft, hwyliodd Robert Twist a Thomas Davies o Stryd yr Eglwys, Charles Walter Jones a George Wynne o Stryd y Groes, ac R T Williams a John Evans o Stryd y Senedd allan o Lerpwl ar y llong allfudiad *SS Teutonic* i Ganada. Hwyliodd Mrs Edwards o Dŷ Burgedin yn Stryd y Senedd a'i dau blentyn a'i dwy chwaer, y Misses Morgan, o'r Stryd Fawr i ymuno a'i gŵr yno. Teithiodd Mrs Hughes o Benlon gyda'i phedwar plentyn hefyd i ymuno a'i gŵr. Cyrhaeddodd pawb ar Ebrill 26ain, 1913.

I'r rhai a arhosodd gartref, nid oedd bywyd yn hawdd. Roedd cyflogau yn sâl, streicio cenedlaethol yn gyffredin, doedd dim tâl am fod yn sâl nac am fod yn segur, dim pensiwn i wragedd gweddw, ac roedd y rhai na fedrant edrych ar ôl eu hunain yn gorfod mynd i'r wyrcws yn Llanelwy. Disgwyliad oes i ddynion oedd 49, ac i ferched 53. Ni sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol tan 1948, a ni ddaeth gwrthfotigau, a gynyddodd oes yn ddramatig, i ddefnydd tan y pedwardegau. Heb imiwneiddio roedd y frech goch, difftheria, y pas, a'r pla gwyn yn gyffredin ac ar brydiau yn farwol. Roedd llawer o dai Rhuddlan yn orlawn, heb ystafell ymolchi, ac roedd y toiledau ym mhen draw'r ardd. I wneud pethau yn waeth, roedd Afon Clwyd yn gorlifo'n gyson i mewn i dai tu draw i'r bont.